

PWYLLGOR CRAFFU LLE

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2026.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Y Cynghorydd C. Iannucci-Williams (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr G.M. Ball, C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, I.A.N. Perry, C. Stallard a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: M. Blackmore a G. Doyle (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolwyr Panel); O. Carroll (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a Bro Morgannwg); a'r Cynghorwyr A. Asbrey, J. Aviet, B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), C.P. Franks, S.M. Hanks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid), N.C. Thomas ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau).

760 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

761 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorydd E. Penn a K. Mitchell (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel).

762 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2026 a'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2026 fel cofnod cywir.

763 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

764 ADOLYGIAD O WEITHGAREDD HAMDDEN PEILOT YM MHARC GWLEDIG COSMESTON (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 5 Chwefror, 2026 gan y Cyfarwyddwr Lle i'r Pwyllgor, a'r pwrpas oedd i'r Pwyllgor ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad cysylltiedig, a chyfeirio unrhyw argymhellion at y Cabinet i'w hystyried.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr gyflwyniad yn crynhoi argymhellion y Cabinet i gynnal gwiriadau ecolegol ac ansawdd dŵr blwyddyn lawn yn 2026, oedi unrhyw weithgareddau dŵr newydd, ac adrodd yn ôl i'r Cabinet yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Mae'r cyflwyniad hefyd yn amlinellu cefndir yr adroddiad, gan nodi bod gweithgareddau blaenorol yn Cosmeston, fel padlfyrddio, plymio, canwïo a chychod, wedi cael ychydig iawn o effaith. Roedd angen i'r Cyngor ystyried sut i gynnal y Parciau Gwledig o dan bwysau cyllidebol, gyda'r peilot Parc Dŵr yn helpu i asesu'r cydbwysedd rhwng defnydd hamdden a diogelu'r amgylchedd ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Roedd y materion allweddol yn cynnwys nifer yr ymwelwyr ac effaith economaidd y cynllun peilot (16,000 o ymwelwyr a £960k yn y drefn honno), a chynaliadwyedd hirdymor Parciau Gwledig y Sir. Roedd canlyniadau ansawdd a diogelwch dŵr o fewn terfynau derbyniol, gyda dim ond un anghysondeb ynysig ac anafiadau yn ymwneud â'r peilot a aseswyd i fod yn fân, nodweddiadol ac yn ddi-gysylltiad ag ansawdd dŵr. Roedd yr effaith ecolegol yn cynnwys cydsyniad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (ddwywaith) mewn perthynas â'r Parc Dŵr, sawl adroddiad ecoleg, ac argymhelliad ar gyfer asesiad sylfaenol newydd. Amlinellwyd ymateb y gymuned i'r peilot parc dŵr, gan gynnwys deisebau, gwrthwynebiadau a sylwadau gan Grŵp Gweithredu'r Fro (GGF), fel deiseb gyda 7,585 o lofnodion a phryderon a godwyd am ecoleg, sŵn, ansawdd dŵr a diogelwch. Er gwaethaf hyn, ystyriwyd bod y data peilot yn amhrisiadwy ar gyfer llunio strategaeth tymor hwy ar gyfer defnyddiau a gweithgareddau hamdden yn Cosmeston. O ran y camau nesaf, byddai'r Cyngor yn oedi unrhyw weithgareddau hamdden newydd sy'n seiliedig ar ddŵr yn ystod 2026, yn cynnal asesiadau sylfaenol ecolegol ac ansawdd dŵr llawn, yn cynnal adolygiad ehangach o gyfleoedd gweithgareddau hamdden tir a dŵr, ac yn adrodd yn ôl i'r Cabinet ddiwedd 2026 ynglŷn â datblygu cyfleoedd addas.

Ymdriniwyd â'r wyth sylw ysgrifenedig gan aelodau o'r cyhoedd a grwpiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r peilot hwn hefyd fel a ganlyn:

- Roedd misglod rhesog wedi bod yn y llyn ers dros 20 mlynedd, yn ôl pob tebyg wedi'u cludo gan adar. Awgrymodd profion DNA yn 2025 bresenoldeb posibl berdys rheibus, er nad oedd hyn wedi'i gadarnhau a byddai wedi dyddio cyn y peilot.
- Roedd y llyn dwyreiniol wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer nofio a hamdden dŵr arall, ond daeth nofio i ben oherwydd diogelwch a diffyg darpariaeth achubwyr bywyd yn hytrach nag unrhyw broblemau ansawdd dŵr neu lygredd.
- Rhoddodd CNC gydsyniad i'r gweithgaredd ddwywaith o dan Adran 28H o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ac ni chanfu arolygon ecolegol gan y gweithredwr a'r Cyngor unrhyw effaith annerbyniol ar fywyd adar, er bod llinell sylfaen ecolegol lawn yn 2026 yn cael ei argymell. Roedd rhawn yr ebol yn parhau i fod yn iach ac wedi lledaenu o'r gorllewin i'r llyn dwyreiniol.

- Dangosodd adborth gan staff y Parc Gwledig nad oedd unrhyw gynnydd sylweddol mewn cwynion sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, pwysau traffig / parcio, neu ddefnydd dŵr anawdurdodedig yn ystod y cyfnod peilot.
- Nid oedd angen caniatâd cynllunio oherwydd natur dros dro y peilot a hawliau datblygu'r Cyngor a'i asiantau.
- Roedd y cynwysyddion cysylltiedig yn cael eu tynnu; ond byddai'r angorau yn parhau i osgoi tarfu ar rawn yr ebol (yr oedd CNC wedi rhoi cydsyniad iddo).
- O ran y pwyntiau ariannol a godwyd, byddai'r holl incwm o'r peilot (a pharcio) yn mynd yn uniongyrchol tuag at: Gynnal a chadw'r Parc Gwledig, gwaith ecolegol a gwelliannau cyfleusterau (e.e. toiledau, parcio).
- Byddai'r amserlen profi ansawdd dŵr yn Cosmeston yn cynyddu yn 2026, gan symud o samplu ddwywaith y mis ym mis Ionawr i brofion wythnosol o fis Ebrill i fis Medi, gan ddisodli'r profion seiliedig ar draethlin hanesyddol llai aml. Byddai'r dull mwy newydd, sy'n samplu dŵr i ffwrdd o'r lan i osgoi anghysondebau a achosir gan fywyd gwyllt a gweithgarwch ymwelwyr, yn parhau trwy gydol asesiad sylfaenol 2026.

Yn dilyn hynny, gwahoddwyd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy gan y Pwyllgor i siarad, a bwysleisiodd bwysigrwydd hanfodol mannau glas a gwyrdd y Sir, yn enwedig ar ôl y pandemig, pan ddaeth ardaloedd awyr agored yn "lloches" i lawer o bobl. Pwysleisiodd bwysigrwydd parhaus annog pobl i ddefnyddio'r mannau hyn. Roedd sicrhau bod parciau'n gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn gofyn am gynhyrchu incwm, ac roedd y gweithgarwch peilot wedi darparu incwm y gellid ei roi yn ôl a helpu i ariannu gwelliannau fel cyfleusterau newydd a gwaith ecolegol. Siaradodd hefyd am y datblygiadau a'r gwelliannau ehangach i Barciau Gwledig y Sir, a'u manteision, gyda thua 78% o'r ymwelwyr â'r rhain wedi dod o'r tu allan i'r ardal, a ddaeth â manteision ehangach hefyd. Byddai cymryd seibiant eleni o ran unrhyw weithgareddau hamdden newydd sy'n seiliedig ar ddŵr yn caniatáu gwerthusiad priodol o newidiadau amgylcheddol, wrth i gynefinoedd esblygu'n naturiol.

Siaradodd dau siaradwr cyhoeddus, S. Robson a S. Lenaerts, ar yr eitem hon, a chododd sawl pwynt a phryder, gan ddechrau gyda S. Robson a gododd nifer o faterion ar ansawdd dŵr a phryderon cysylltiedig ar ddiogelwch y cyhoedd yn Cosmeston. Dywedodd fod ansawdd dŵr yn ymwneud ag amddiffyn nofwyr rhag pigau llygredd sydyn a achosir gan ddigwyddiadau fel "fflysio cyntaf" o law drwm, gollyngiadau llygredd, neu drwytholchi o safleoedd tirlenwi cyfagos. Roedd y digwyddiadau hyn yn anrhagweladwy, sy'n golygu bod unrhyw un sy'n mynd i mewn i'r dŵr bob amser mewn perygl. Dadleuodd fod data hanesyddol E. coli ac Enterococci, nid samplau diweddar yn unig, yn dangos y patrwm gwirioneddol o berygl. Roedd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) wedi datgelu lefelau uchel o E. coli ac Enterococci ar draethlin y llyn dwyreiniol, a oedd wedi mynd yn uwch na'r terfynau diogelwch cyfreithiol a osodwyd. Roedd CNC a Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) wedi cadarnhau bod ansawdd dŵr y llyn yn wael. Pe bai Cosmeston yn safle ymdrochi swyddogol, byddai wedi bod yn ofynnol iddo gau. Ychwanegodd nad oedd samplu ychwanegol yn datrys y broblem oherwydd bod canlyniadau'n cymryd tri diwrnod, sy'n golygu y byddai amlygiad yn digwydd cyn canfod halogiad. I gloi, dywedodd nad oedd ansawdd dŵr Cosmeston yn addas ar gyfer parc dŵr plant, bod pigau peryglus yn digwydd yn rhy aml i'w lliniaru, ac na fyddai blwyddyn arall o brofion yn newid hanes y llyn, gan adael defnyddwyr y

dyfodol yn anochel yn agored pe bai gweithgareddau dŵr yn cael eu hailddechrau yn y lleoliad.

O ran pwynt eglurhad y Cynghorydd Perry, eglurwyd bod y data ar lefelau E. coli ac Enterococci wedi'i gael drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth drwy lechyd Cyhoeddus Cymru, a oedd wedi cymryd peth amser i'w gael.

Dadleuodd S. Lenaerts nad oedd honiad y Cyngor o "ddim difrod i fywyd gwyllt" yn lleoliad y Parc Dŵr yn cael ei gefnogi gan ei dystiolaeth ei hun. Dywedodd nad oedd adroddiad Thompson Ecology yn cadarnhau bod bioamrywiaeth na gofynion cyfreithiol wedi cael sylw yn ddigonol; yn hytrach, dywedodd na allai roi sicrwydd o'r fath. Ychwanegodd fod CNC eisoes wedi rhybuddio bod yr arolygon yn anghyflawn oherwydd eu bod wedi methu'r tymor bridio brig ac nad oeddent yn cynnwys unrhyw fesur uniongyrchol o darfu, gan wneud y casgliadau yn annibynadwy. Atgoffodd y Pwyllgor fod Grŵp Gweithredu'r Fro wedi cyflwyno tystiolaeth fanwl yn seiliedig ar adroddiad ym mis Hydref 2025, gan dynnu ar ymchwil, data Rhyddid Gwybodaeth a mewnbwn gwyddonol, a gododd bryderon am rywogaethau gwarchodedig, data gwaelodlin coll, materion cynllunio, risgiau i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), a dulliau arolygu diffygiol. Roedd hi'n teimlo bod y dystiolaeth hon wedi'i gwrthod. Pwysleisiodd fod CNC, y Grŵp Gweithredu, a'r adolygiad annibynnol i gyd yn codi pryderon heb eu datrys, ond parhaodd y Cyngor i gyflwyno'r ecoleg fel un "setlo". Dywedodd fod hyn bellach yn fater o sut roedd tystiolaeth yn cael ei thrin, nid ecoleg yn unig. Beirniadodd hefyd y diffyg goruchwyliaeth ar safle gwarchodedig, gan nodi nad oedd swyddog bywyd gwyllt pwrpasol a dim cyfranogiad gweladwy gan Ecolegydd y Cyngor.

Daeth i'r casgliad bod gan y Cyngor ddata anghyflawn, wedi cael ei rybuddio am ei gyfyngiadau, ac wedi diystyru pryderon credadwy. Nid oedd cyflwyno ansicrwydd fel sicrwydd, meddai, yn graffu cadarn. Anogodd y Pwyllgor i wrthod adroddiad y Cabinet a chwestiynodd sut y gallai'r Cyngor hawlio "dim difrod i fywyd gwyllt" o ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Ar bwynt eglurhad dilynol y Cynghorydd Perry ynglŷn â sut y cododd Grŵp Gweithredu'r Fro eu pryderon, ac ati gyda'r Cyngor, eglurwyd eu bod wedi cysylltu â'r Cyngor drwy e-bost, anfon gwahoddiadau, ac ati, a oedd yn teimlo bod y siaradwr yn teimlo eu bod wedi'u hanwybyddu, heb eu dilyn yn ddigonol neu nad oeddent yn cael eu hateb.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Lleodedd i'r pwyntiau a godwyd gan y siaradwyr cyhoeddus fel a ganlyn. Ar ôl ymgysylltu â Grŵp Gweithredu'r Fro, roedd y Cyngor wedi derbyn tua 2,000 o negeseuon e-bost mewn perthynas â'r Parc Dŵr, gyda llawer o'r rhain yn dod o'r Grŵp Gweithredu. Roedd pob e-bost wedi cael ymateb, gan gynnwys rhai atebion manwl iawn a roddir. Roedd hyn yr un peth ar gyfer y cwynion amrywiol, cysylltiedig, a wnaed i'r Cyngor hefyd. Roedd adroddiad y Grŵp Gweithredu hefyd wedi'i ystyried fel rhan o astudiaeth Thomson. Nid oedd yr adroddiad wedi cael ei ganiatáu gan y Grŵp Gweithredu i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor nac i'w wneud ar gael i'r cyhoedd. Roedd cyngor CNC ac Ecolegydd y Cyngor hefyd wedi cael ei ddilyn i lythyren y gyfraith. Roedd Thomson wedi edrych ar y wybodaeth a ddarparwyd ac fel rhan o'u hargymhellion ni chanfu unrhyw dystiolaeth o niwed i unrhyw rywogaeth neu ddifrod ecolegol ond argymhellodd

asesiad gwaelodlin llawn yn 2026 i sicrhau bod gan y Cyngor y data sydd ei angen ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol. Roedd y Cyngor yn dilyn y cyngor hwn yn llawn ac yn gweithredu yn unol â'r holl ganllawiau a ddarparwyd. Ailadroddwyd bod cyngor CNC wedi'i ddilyn a bod Ecolegydd y Cyngor wedi bod yn rhan o bob rhan o'r broses benderfynu yn ymwneud â'r peilot.

Ar y materion ynghylch ansawdd dŵr, esboniodd y Cyfarwyddwr fod rhai o'r rhain yn seiliedig ar gamddealltwriaeth. Am beth amser, roedd ceidwaid wedi cymryd samplau ar ymyl y llyn yn unig, yn aml mewn gwelyau cyrs, a arweiniodd at bigau anghysonol achlysurol a achoswyd gan adar neu gŵn yn halogi dŵr bas. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cyflwynodd y Cyngor drefn brofi fwy cadarn gan ddefnyddio samplau a gymerwyd o'r tu mewn i'r llyn, i ffridd o ardaloedd sy'n debygol o gael ymylon wedi'u halogi. Eglurodd nad oedd Cosmeston wedi'i brofi fel safle dŵr ymdrochi swyddogol, felly nad oed safonau dŵr ymdrochi yn berthnasol. Fodd bynnag, ni ddangosodd profion yn lleoliad y Parc Dŵr a'r cyffiniau unrhyw dorri safonau ansawdd dŵr. Cymerwyd un sampl sy'n dangos lefelau uchel o facteria gan y gweithredwr yn y lleoliad anghywir, yn ystod gwynt eithafol, a heb gwch; ystyriodd y cwmni yn ddiweddarach ei fod yn annilys, a dyna pam na chafodd ei rannu gyda'r Cyngor. Daeth sampl uchel arall o ardal traeth cyhoeddus ar ochr arall y llyn, a ddefnyddiwyd weithiau yn anffurfiol ar gyfer nofio a gellid ei halogi gan weithgaredd heb ei reoli. Nid oedd yr ardal hon yn agos at safle'r Parc Dŵr. Pwysleisiodd, trwy gydol yr haf, nad oedd profion yn lleoliad y Parc Dŵr yn dangos unrhyw lefelau uchel yn gyson, ac nid oedd defnyddwyr hirsefydlog, fel clybiau canŵio a phlymio, erioed wedi adrodd salwch. Cadarnhaodd hefyd nad oedd CNC a GRhR yn anhapus â dull profi'r Cyngor, a oedd yn cynnwys samplu ychwanegol ar ôl glaw trwm er nad oedd gan y llyn unrhyw fewnlifiad afon neu nant. Ar y cyfan, dywedodd fod cyfundrefn brofi'r Cyngor yn seiliedig ar risg, yn gadarn, ac yn darparu darlun cywir o ansawdd dŵr ar safle'r Parc Dŵr.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy y byddai'r profion dŵr parhaus ar y safle yn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniad gwybodus am unrhyw gynlluniau hirdymor yn Cosmeston. Pwysleisiodd bwysigrwydd cadw meddwl agored nes bod y canlyniadau yn hysbys, gan nodi nad oedd unrhyw beth "ar neu oddi ar y bwrdd". Ei blaenoriaeth oedd sicrhau bod pawb, cerddwyr cŵn, teuluoedd a bywyd gwyllt, yn gallu parhau i fwynhau'r parc a bod ei gynefinoedd yn parhau i fod yn gynaliadwy. Y nod oedd casglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad gwybodus sy'n gwarchod y parciau gwledig tra'n croesawu'r holl ymwelwyr.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Franks, Aelod Etholedig nad yw'n aelod o'r Pwyllgor i siarad. Roedd yn teimlo y dylai'r Cabinet gydnabod y gwrthwynebiad cyhoeddus cryf i'r Parc Dŵr a gweithgareddau o'r natur hon yn y dyfodol ar y safle. Dadleuodd y dylai'r Cabinet leihau ei golledion gan dderbyn nad oedd llawer o drigolion eisiau'r ymyrraeth hon i'r Parc Gwledig. Cwestiynodd y ffigur o £960k a grybwyllwyd, gan ofyn a oedd yn cynrychioli budd economaidd i'r Sir gyfan neu incwm uniongyrchol ychwanegol i'r Cyngor. Ychwanegodd y byddai ymestyn y mater yn afresymol ac y byddai'n adlewyrchu'n wael ar y Cabinet. Daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw fudd i barhau i ddilyn gweithgareddau o'r fath yn Cosmeston ac awgrymodd y dylai'r Pwyllgor argymhell y dylid rhoi'r gorau i'r cynllun Parc Dŵr yn barhaol. Esboniodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod y ffigur o £960k yn cyfeirio at y budd economaidd

cyffredinol i'r Fro, fel y'i haseswyd gan yr ymgynghorwyr twristiaeth a datblygu economaidd a gomisiynwyd i adolygu'r gweithrediad. Eglurodd na allai ddatgelu'r ffigwr a dderbyniwyd gan y Cyngor o'r prosiect ond cadarnhaodd fod unrhyw arian a dderbyniwyd wedi'i ail-fuddsoddi'n uniongyrchol yn ôl i'r Parc Gwledig.

Yn dilyn hynny, cododd y Cynghorydd Hooper, Aelod o'r Pwyllgor, bwynt o drefn ynghylch yr incwm a dderbyniwyd gan y Cyngor o'r Parc Dŵr ac y dylai fod ar gael i'r Pwyllgor er mwyn ystyried yr adroddiad a'r ffigurau gwirioneddol dan sylw yn briodol. Eglurwyd bod hyn o bosibl yn fater masnachol sensitif ynglŷn â'r cwmni preifat dan sylw ond byddai cyngor pellach yn cael ei geisio ar y ffordd orau o gael a rhannu'r wybodaeth gan y gweithredwr i'r Pwyllgor maes o law, gan gynnwys adroddiad Rhan II yn y dyfodol os oes angen, gan Swyddog Monitro'r Cyngor a'r cwmni sy'n gweithredu'r Parc Dŵr. Roedd y Cynghorydd Hooper yn dymuno nodi ei bryderon, gan y dylai Cyngorwyr gael mynediad at wybodaeth sensitif o'r fath o dan Ran II, oherwydd eu bod yn cadw at Gôd Ymddygiad y Cyngor ac y dylid ceisio'r cyngor cyfreithiol a gweithdrefnol perthnasol cyn y cyfarfod, oherwydd bod natur yr adroddiad a'i wybodaeth eisoes yn hysbys. Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod yr adroddiad a phapurau agenda eraill wedi'u derbyn cyn y cyfarfod, a gallai unrhyw ymholiadau o'r fath fod wedi cael eu codi cyn y cyfarfod.

Yn dilyn hynny, gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor, gan gynnwys yr Is-gadeirydd, y Cyngorwyr Ernest, Perry, Stallard a Wiliam, sawl sylw neu godi cwestiynau ynglŷn â'r adroddiad, a atebwyd gan y Cyfarwyddwr Lleodedd fel a ganlyn:

Gosodwyd safonau dŵr ymdrochi gan reoliadau Ewropeaidd ac roedd angen tua phedair blynedd o brofion i gyflawni dynodiad ffurfiol. Roedd y safonau hyn yn berthnasol yn bennaf i ddyfroedd arfordirol a rhai dyfroedd mewndirol. Yn yr achos hwn, nid oedd y Cyngor yn annog ymdrochi cyffredinol yn y llyn y tu allan i weithgaredd rheoledig y Parc Dŵr. Er bod defnyddwyr yn mynd i mewn i'r dŵr, ni chafodd ei ddosbarthu fel defnydd nofio hirdymor. Roedd hyn yn debyg i'r modd yr oedd y Parc Dŵr wedi cael caniatâd i weithredu ym Mae Caerdydd, lle nad oedd y dŵr yn bodloni safonau dŵr ymdrochi. Roedd y Cyngor yn hyderus bod ansawdd dŵr Cosmeston yn uchel ond yn cydnabod bod profion yn y gorffennol yn llai trylwyr oherwydd nad oedd wedi'u cysylltu â gofynion dŵr ymdrochi. Fel rhan o'r peilot, fodd bynnag, cynhaliwyd trefn brofi llym yn yr ardal weithgaredd go iawn, a byddai'r drefn uwch hon yn parhau yn ystod y flwyddyn pan nad oedd unrhyw weithgareddau'n digwydd. Byddai hyn yn rhoi darlun cliriach o ansawdd y dŵr i ffwrdd o ymyl y llyn. Nid oedd y Cyngor yn annog nofio y tu allan i weithgareddau rheoledig ac, am y rheswm hwnnw, ni fyddai'n gwneud cais am ddynodiad dŵr ymdrochi ar gyfer Cosmeston.

O ran effeithiau anuniongyrchol / effaith economaidd y Parc Dŵr, byddai hyn yn cael ei asesu ar nifer yr ymwelwyr, gwariant ar luniaeth a gweithgareddau y tu mewn i'r Parc Gwledig a'r ffigurau a gyfrifwyd o'r rheini. Gwnaed hyn trwy ymgynghorwyr twristiaeth 'Steam' a wnaeth asesiad a chyfrifo y ffigurau y gellid eu priodoli i'r Parc Dŵr a'i fanteision cysylltiedig yn Cosmeston.

Roedd dynodiad SoDdGA yn cwmpasu'r ddau lyn ac roedd y Cyngor a CNC eisoes yn credu bod rhawn yr ebol serennog yn debygol o fod yn bresennol yn y llyn dwyreiniol hefyd. Cyn i'r Parc Dŵr gael ei osod, comisiynodd y gweithredwr arolwg

plymio, a gadarnhaodd ei bresenoldeb, ac roedd CNC yn ymwybodol o hyn cyn rhoi ei gydsyniad. Ers hynny, roedd rhawn yr ebol serennog wedi cynyddu'n sylweddol yn y llyn dwyreiniol ac roedd yn ffynnu, er presenoldeb y Parc Dŵr. Yn ddiweddar, cyhoeddodd CNC gydsyniad pellach i gadw'r angourau concrit, gan nodi na fyddai presenoldeb y gosodiad yn y llyn dwyreiniol yn effeithio ar unrhyw benderfyniadau cydsynio yn y dyfodol.

Ar bresenoldeb posibl berdys rheibus, lansiwyd cychod i mewn i Lyn Cosmeston yn rheolaidd gan wahanol ddefnyddwyr, gan gynnwys y clwb canŵio, y clwb plymio, a cheidwaid y Cyngor, a ddefnyddiodd gwch at samplu dŵr a dibenion gweithredol fel diogelwch y cyhoedd. Roedd yn ofynnol i bob cwch ddilyn gweithdrefnau glanhau ac arolygu bioddiogelwch llym cyn mynd i mewn i'r llyn ac wrth symud. Roedd y mesurau hyn ar waith yn rhannol oherwydd bod rhywogaethau goresgynnol hysbys, gan gynnwys misglod rhesog, eisoes yn bresennol. O ran yr awgrym y gallai cwch, sy'n eiddo i weithredwr y Parc Dŵr ac y credir ei fod wedi dod o Rutland Water, fod wedi cyflwyno rhywogaethau goresgynnol, nodwyd y byddai'r llong hefyd wedi bod yn destun yr un rheolaethau bioddiogelwch â phob cwch arall sy'n mynd i mewn i'r llyn. O ystyried bod cychod o sawl sefydliad, gan gynnwys Clwb Canŵio Caerdydd, yn cael eu defnyddio ar ddyfroedd eraill lle roedd rhywogaethau goresgynnol yn bresennol, roedd gweithdrefnau bioddiogelwch llym yn berthnasol yn gyffredinol i bob defnyddiwr llyn. Roedd ardal glanhau ac arolygu bwrpasol wedi'i lleoli wrth y ramp lansio, ac roedd angen cydymffurfio cyn lansio cychod ac ar ôl iddynt gael eu tynnu.

O ran materion cynllunio, yn dilyn cwyn ffurfiol, adolygodd swyddog gorfodi'r Cyngor y sefyllfa a chadarnhaodd nad oedd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gweithgaredd dros dro fel y'i gweithredwyd. Nodwyd, pe bai'r gweithgaredd yn dod yn barhaol, neu'n cynnwys strwythurau parhaol, byddai'r sefyllfa gynllunio yn debygol o fod yn wahanol. Byddai unrhyw ystyriaethau o'r fath yn rhan o'r broses asesu sylfaenol.

Hefyd, roedd unrhyw wybodaeth, pryderon, ac ati a gyflwynwyd gan Grŵp Gweithredu'r Fro wedi cael eu hystyried yn llawn gan y Cyngor fel rhan o'r broses benderfynu, ac ati o amgylch y peilot ac fel rhan o'r ystyriaeth ar weithgareddau a datblygiadau yn y lleoliad.

Ar y materion, y pwyntiau a'r pryderon a godwyd ynglŷn â phwrpas Parc Gwledig Cosmeston, effaith economaidd y Parc Dŵr, effaith y defnydd blaenorol o'r ardal gyfagos fel tomen cemegol a gwastraff arall, ffigurau ynghylch twristiaeth a gweithgareddau yno, yn ogystal â ffioedd parcio / incwm, a phryderon Aelodau Ward lleol a phreswylwyr am y peilot, rhoddwyd sylw i'r rhain hefyd gan y Cyfarwyddwr Lle. Roedd hyn yn cynnwys y Cyfarwyddwr yn nodi cyd-destun hanesyddol Parc Gwledig Cosmeston, a gafodd ei gamddeall weithiau. Roedd yr uwchgynllun gwreiddiol, a baratowyd pan sefydlwyd y parc gan hen Gyngor De Morgannwg a'i drosglwyddo'n ddiweddarach i Gyngor Bro Morgannwg, yn nodi'r llyn gorllewinol fel ardal naturiol a'r llyn dwyreiniol ar gyfer gweithgareddau hamdden. Roedd y llyn dwyreiniol wedi cael ei ddefnyddio at wahanol ddibenion hamdden, gan gynnwys cychod modur, cyn i'r parc agor ar ddechrau'r 1980au, ac roedd defnydd hamdden o'r dŵr wedi parhau dros nifer o flynyddoedd. Mewn perthynas ag ansawdd dŵr, cadarnhawyd bod y Cyngor wedi cynnal profion blynyddol o'r llyn am fetelau trwm a

halogion cemegol eraill oherwydd agosrwydd y safle at ddefnydd hanesyddol fel chwarel a safleoedd tirlenwi. Cynhaliwyd y profion hyn yn ychwanegol at samplu microbiolegol arferol, i sicrhau nad oedd trwytholchi i'r dŵr ac i amddiffyn y dynodiad SoDdGA. Cynhaliwyd asesiadau effaith twristiaeth gan ddefnyddio ymgynghorwyr allanol, yn seiliedig ar ffigurau ymwelwyr sy'n gysylltiedig â defnydd y Parc Dŵr a gwylwyr, yn unol â'u methodoleg safonol. Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy fod y Parc(iau) Gwledig gan gynnwys Cosmeston ar gyfer pawb, ac a oedd ar gyfer cadwraeth bywyd gwyllt a defnydd hamdden ac felly nid oedd yn mynd i gael ei droi'n 'barc thema' fel yr awgrymwyd. Roedd yn bwysig i'r asesiad o Cosmeston gael ei gynnal, ac i Aelodau'r Pwyllgor, Aelodau Etholedig a'r cyhoedd gymryd rhan yn hyn a chyfrannu ato.

Codwyd pryderon am y lefel ganfyddedig o ansicrwydd ynghylch profion dŵr a'i effeithiolrwydd, yn enwedig gan y byddai'r asesiad hwn ar ansawdd a diogelwch dŵr yn cael ei ddwysáu ar ôl i'r peilot gael ei gynnal eisoes.

Codwyd pryderon hefyd am y gwrthdaro posibl rhwng gwahanol ddefnyddwyr a'u hanghenion o amgylch Parc Gwledig Cosmeston, megis rhwng y rhai ar gyfer gweithgareddau hamdden estynedig (fel y Parc Dŵr) a'r rhai nad oeddent eisiau'r gweithgareddau hyn yno. Nid oedd digon o wybodaeth am yr incwm a gynhyrchwyd (neu beidio) gan y Cyngor ynglŷn â'r Parc Dŵr, ac ati, er gwaethaf pwyslais y Cyngor ar gynhyrchu incwm a chynaliadwyedd ariannol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys mwy o eglurder ar y niferoedd a'r ffigurau a ddangosir yn yr adroddiad, megis y rhai ar yr amcangyfrifon effaith economaidd a'r dadansoddiad o'r niferoedd sy'n ymweld â'r Parc Dŵr yn benodol a'r rhai sy'n ymweld â Cosmeston ar gyfer ei gyfleusterau a'i dirweddau eraill a'r angen i edrych ar ffigurau'r blynyddoedd blaenorol drwy gymharu a dadansoddi. Felly, byddai niferoedd a data mwy ystyrlon yn hyn o beth yn cael eu croesawu i helpu i gymharu'r wybodaeth dan sylw. Eglurwyd bod y ffigur o 16,000 yn cynrychioli cyfanswm nifer defnyddwyr y Parc Dŵr a gwylwyr cysylltiedig, fel y cynghorwyd gan y gweithredwr ac a ddefnyddiwyd gan ymgynghorwyr twristiaeth y Cyngor. Nid oedd y Cyngor yn gweithredu system i gyfrif ymwelwyr unigol sy'n mynd i mewn neu'n gadael Parc Gwledig Cosmeston, gan fod mynediad i'r parc yn rhad ac am ddim a dim ond taliadau parcio ceir a oedd yn berthnasol. Felly, amcangyfrifwyd nifer yr ymwelwyr gan ddefnyddio data parcio ceir a dangosyddion eraill, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol i asesu unrhyw gynnydd yn y defnydd o barciau. Roedd y Parc Dŵr ei hun yn weithrediad preifat, ac roedd taliadau i'w ddefnyddio yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r gweithredwr. Darparodd y gweithredwr wybodaeth am ddefnydd i'r ymgynghorwyr twristiaeth i alluogi asesiad o'r effaith economaidd 'fyd-eang' gyffredinol, a lywiodd y ffigurau a nodir yn yr adroddiad.

Awgrymwyd cynnig ac argymhelliad gan y Cynghorydd Perry, o ystyried lefel y gwrthwynebiad cyhoeddus a'r pryderon ynghylch ansawdd dŵr, argymhellodd y Pwyllgor na chaniateir gweithgareddau gan gynnwys gweithrediadau parc dŵr a allai fod yn peryglu plant gyda dŵr halogedig ym Mharc Gwledig Cosmeston. Pleidleisiwyd ar hyn wedyn, trwy Bleidlais wedi'i Chofnodi:

	O Blaid	Yn Erbyn	Ymatal
G.M. Ball		√	
C.E.A. Champion	√		

P. Drake		√	
V.P. Driscoll	√		
A.M. Ernest	√		
M.J. Hooper	√		
C. Iannucci-Williams		√	
S. Lloyd-Selby		√	
J.M. Norman		√	
I.A.N. Perry	√		
C. Stallard		√	
S.T. Wiliam	√		
Cyfanswm	6	6	0

Oherwydd bod pleidlais gyfartal, pleidleisiodd y Cadeirydd, gyda'i phleidlais fwrw, yn erbyn y Cynnig / argymhelliad ac felly ni chafodd ei basio.

Wedi hynny, cynigiodd y Cynghorydd Perry Gynnig / argymhelliad amgen pellach (fel isod), a gafodd ei eilio hefyd.

Cynhaliwyd Pleidlais Gofnodedig bellach. Pleidleisiwyd ar yr argymhelliad isod gan y Pwyllgor, o dan Bleidlais Gofnodedig, fel a ganlyn:

	O Blaid	Yn Erbyn	Ymatal
C.E.A. Champion	√		
P. Drake		√	
V.P. Driscoll	√		
A.M. Ernest	√		
M.J. Hooper	√		
C. Iannucci-Williams		√	
S. Lloyd-Selby		√	
J.M. Norman		√	
I.A.N. Perry	√		
C. Stallard		√	
S.T. Wiliam	√		
Cyfanswm	6	5	0

Felly, pasiwyd y bleidlais i gefnogi'r argymhelliad a nodir isod.

Y Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – BOD y Cabinet yn ystyried y canlynol: y dylid cymhwyso'r egwyddor ragofalus a rhoi'r pwyslais mwyaf i ddiogelu ecosystem y llynnoedd ym Mharc Gwledig Cosmeston, heb roi pwyslais i incwm y Cyngor pan fydd y Cyngor yn ystyried parc dŵr a gweithgareddau tebyg ym Mharc Gwledig Cosmeston a'i lynnoedd.

Rheswm dros yr argymhelliad

I'w gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried, yn dilyn y trafodaethau yn y cyfarfod ar y cyfeiriad a'r adroddiad, a'r materion a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor, siaradwy'r cyhoeddus ac eraill yn y cyfarfod, fel rhan o'u hystyriaeth o'r Adolygiad.

765 CYNLLUNIAU'R GYFARWYDDIAETH AMGYLCHEDD A THAI A LLE 2026/27 (YN AMLINELLU GWEITHGAREDDAU BLWYDDYN 2, MESURAU PERFFORMIAD A THARGEDAU PERFFORMIAD CYSYLLTIEDIG I GYFLAWNI DYFFRYN 2030, CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR 2025-30) (CL/CAT) –

Cyflwynodd yr adroddiad i'r Aelodau ystyried y gweithgareddau arfaethedig, y mesurau perfformiad a'r targedau perfformiad cysylltiedig yng Nghynlluniau'r Gyfarwyddiaeth am Lleoedd (Atodiad A) a'r Amgylchedd a Gwasanaethau Tai 2026-27 (Atodiad B). Roedd Cynllun y Gyfarwyddiaeth Lleoedd yn alinio'n bennaf â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu Lle. Roedd Cynllun Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai yn cyd-fynd â chyfrifoldebau'r Pwyllgor Craffu Lle a'r Pwyllgor Craffu Byw'n Dda a byddai'n cael ei ystyried gan y ddau. Cyflwynwyd y rhain i'r Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Lleoedd a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai. Roedd Cynlluniau'r Gyfarwyddiaeth wedi cael eu llywio gan 50 addewid y Cyngor a fanylwyd yn Bro 2030 ac roedd camau gweithredu a mesurau wedi'u halinio â'r pum amcan lles yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2025-30. Fe wnaethant hefyd alinio â rhwymedigaethau statudol y Cyngor ac yn helpu i gyflawni. Roedd y Cynlluniau Cyfarwyddiaeth eraill yn cael eu hystyried gan Bwyllgorau Craffu perthnasol, ac roedd eu sylwadau a'u hargymhellion ar y cyd i'w hystyried gan y Cabinet ar 16 Ebrill, 2026.

Rhoddwyd cyflwyniad ar y cyd i'r Pwyllgor yn cwmpasu'r canlynol:

- Trosolwg o Gynlluniau'r Gyfarwyddiaeth, a'r cyd-destun ar gyfer;
- Strwythur a chyfansoddiad Cynlluniau'r Gyfarwyddiaeth;
- Cynllun y Gyfarwyddiaeth am yr Amgylchedd a Thai – materion allweddol, risgiau, camau gweithredu, mesurau a thargedau ar gyfer 2026/27;
- Cynllun y Gyfarwyddiaeth Lleoedd – materion allweddol, risgiau, camau gweithredu, mesurau a thargedau ar gyfer 2026/27.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Craffu adolygu Cynllun y Gyfarwyddiaeth Lleoedd a'r Amgylchedd a Thai ar gyfer 2026-27 (gweithgareddau a gynlluniwyd, mesurau perfformiad arfaethedig a thargedau cysylltiedig) a sut y byddent yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymadau a'r canlyniadau yn Bro 2030. Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd gyfeirio at unrhyw sylwadau ac argymhellion mewn perthynas â Chynllun y Gyfarwyddiaeth Lleoedd a'r Amgylchedd a Thai ar gyfer 2026-27 i'r Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo.

Yn dilyn y cyflwyniad, cyfeiriodd Aelodau'r Cabinet perthnasol at agweddau allweddol, cadarnhaol, ar Gynlluniau'r Gyfarwyddiaeth (megis gweithgareddau ailgylchu a strydlun, gwaith y Fro Ddiogelach, datblygu tai a safonau ansawdd, ac ati) a'r gwaith sylweddol a wnaed gan staff y Cyngor fel rhan o'r cynlluniau hyn.

Cododd y Cynghorydd Ernest gwestiwn mewn perthynas â'r adroddiad ac ymgynghoriadau prosiect mawr (e.e. hen safle Wilko yn Stryd Thompson a Phorth y Gorllewin a'r Dwyrain). Aeth y Cyfarwyddwr Lleoedd i'r afael â hyn, gan gynnwys y gwaith ymgynghori a datblygu ar safle Wilko a'r gwaith sy'n mynd rhagddo o amgylch Porth y Dwyrain a'r Gorllewin, o ran cydweithredu a defnydd gan y Cyngor ag asiantaethau a phartneriaid eraill a chael defnydd cymysg ar gyfer y rhain, gyda chyfleusterau amrywiol a llety preswyl i'w cynnwys.

Ar ymholiadau a sylwadau'r Cynghorydd Champion ynghylch gwasanaethau bws Metro De Cymru (gan gynnwys y defnydd o'r term 'metro' nad oedd yn newid nac yn gwella'r gwasanaeth yn sylweddol) a lleoliad meddygfeydd ychwanegol yn y Fro Orllewinol ac mewn mannau eraill, gan gynnwys mwy o gydweithio rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ar hyn. O ran meddygfeydd, roedd trafodaethau ar y gweill rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd lleol mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol a lleoli / sefydlu meddygfeydd yn y Fro. Cododd hefyd ymholiad ynghylch y Cynllun Ynni Ardal Leol. Roedd ymchwil yn cael ei gomisiynu o amgylch polisi gwresogi lleol a rhwydweithiau gwres lleol, i'w adrodd yn ôl yn y 12 mis nesaf.

Gan y Cadeirydd, gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r cyfeiriad yng Nghynllun y Gyfarwyddiaeth Lleoedd at ffocws yn y dyfodol ar gynhyrchu incwm ym Mharciau Gwledig y Cyngor, a sut y byddai hyn yn cyd-fynd â'r dysgu o beilot Parc Dŵr Cosmeston. Gofynnwyd a fyddai'r un dull rhagweithiol o arolygon ecolegol ac asesiad amgylcheddol a gynhaliwyd yn ystod y peilot yn cael ei gymhwyso i unrhyw gynigion sy'n cynhyrchu incwm yn y dyfodol. Cadarnhawyd y byddai hyn yn wir ac y byddai unrhyw waith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar wella cyfleusterau presennol yn hytrach na chyflwyno gweithgarwch masnachol newydd sylweddol. Nodwyd bod y ddau Barc Gwledig eisoes yn cynnwys cyfleusterau caffi a bod gwelliannau i'r rhain yn rhan o waith ail-lunio neu ailddatblygu arfaethedig. Ym Mharc Gwledig Cosmeston, roedd y caffi yn cael ei gymryd drosodd gan y Big Fresh Food Company, a oedd yn buddsoddi mewn adnewyddu mewnol i wella profiad ymwelwyr. Roedd cyfleoedd tebyg yn cael eu hystyried ym Mharc Gwledig Porthceri, ochr yn ochr â gwelliannau i gyfleusterau cyhoeddus fel toiledau. Byddai'r Cyngor hefyd yn parhau i archwilio cyllid grant allanol i gefnogi gwelliannau o'r fath, gan nodi bod llawer o gynlluniau cyllido yn gofyn am gyfraniad y Cyngor o leiaf 30%, dull sydd wedi'i gymhwyso i brosiectau diweddar yn y ddau barc. Byddai unrhyw gyfleoedd cynhyrchu incwm yn y dyfodol, gan gynnwys gweithredwyr trwyddedig posibl sy'n darparu bwyd ac eitemau eraill, yn cael eu symud ymlaen gyda'r pwyslais ar wneud y mwyaf o incwm tra'n lleihau'r effaith ar y parciau, gyda diogelu'r amgylchedd naturiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod y buddsoddiad yn y Parciau Gwledig yn cael ei groesawu, o ran plannu a chyfleusterau, a dylid diolch i holl staff y Cyngor, ac ati, a oedd wedi gweithio'n galed i wneud y Parciau Gwledig yn hygyrch a darparu profiad cadarnhaol i ddefnyddwyr y safleoedd a'r cyfleusterau hyn.

Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y dylid Cynlluniau'r Gyfarwyddiaeth Lle (Atodiad A i'r adroddiad) a'r Gwasanaethau Amgylchedd a Thai (Atodiad B i'r adroddiad) a'r mesurau a'r targedau perfformiad cysylltiedig ar gyfer 2026/27 sydd ynddynt, sy'n ymwneud â chwmpas y Pwyllgor, yn cael eu cymeradwyo a'u cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau a gynlluniwyd, y mesurau cysylltiedig a'r targedau perfformiad ar gyfer y Gyfarwyddiaethau Lle a Gwasanaethau Amgylchedd a Thai, fel y manylir yn y Cynlluniau ac o fewn cwmpas y Pwyllgor, yn berthnasol ac ynghyd â'r tair Cynllun Cyfarwyddiaeth arall, y byddent yn dod yn brif fodd y byddai perfformiad yn erbyn y Bro 2030 yn cael ei fonitro a'i fesur yn ystod 2026/2027.

766 CYNLLUN CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD 3 BLYNEDD: 2026 – 2029 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad / adroddiad gan y Cabinet ar 12 Mawrth, 2026 gan Reolwr Cymdogaeth – Priffyrdd y Cyngor, a'i bwrpas oedd i'r Pwyllgor ystyried y prif adroddiad a'r atodiadau, gan gynnwys manylion y Cynllun Tair Blynedd Cynnal a Chadw Priffyrdd 2026 – 2029, cyn iddo gael ei gytuno'n ffurfiol.

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor, a oedd yn ymdrin â'r pwyntiau allweddol a chynigion canlynol o'r Cynllun:

- Y pedair blaenoriaeth allweddol (ailwynebu lonydd cerbydau, trwsio wynebau ffyrdd, wynebu tenau a gwelliannau troedffordd);
- Cyflwyniad i'r Cynllun, gan gynnwys dyletswyddau'r Cyngor ar, a phwysigrwyd cynnal a chadw rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig y Sir, y Cynllun arfaethedig, triniaethau a blaenoriaethau (Atodiad A i'r adroddiad), dyrannu'r gyllideb, y broses sgorio / dyrannu ffyrdd, a'r broses ar gyfer y priffyrdd hynny sydd angen sylw ar unwaith;
- Yn dilyn argymhellion blaenorol gan Craffu, roedd y matrices sgorio ar gyfer ffyrdd wedi'i newid i ddal ystyriaethau Teithio Llesol;
- Cefndir pellach i'r Cynllun a'i gynigion, cyfranogiad y Tîm Cynnal a Chadw Priffyrdd, y broses asesu ar gyfer gwaith i'r priffyrdd ac ystyriaethau ariannu / benthyg ar gyfer y gwaith arfaethedig a buddsoddiad yn y dyfodol mewn cynnal a chadw priffyrdd;
- Dadansoddiad o'r gwahanol driniaethau ataliol wyneb priffyrdd a mathau o gynnal a chadw, gan gynnwys dewisiadau amgen cost-effeithiol.

Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu arloesiadau diweddar ym maes trin ffyrdd, gan nodi'r cynllun peilot llwyddiannus yn y Barri a gwerth gweithio partneriaeth barhaus gyda phrifysgolion lleol a phrifysgolion eraill. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod buddsoddiad mewn troedffyrdd wedi cael ei ddyblu i £400k dros y ddwy flynedd nesaf, gan wella hygrychedd a chefnogi cerdded

a theithio llesol, ochr yn ochr â chynnal a chadw ffyrdd. Anogwyd yr Aelodau i godi unrhyw ffyrdd sydd angen sylw, a phwysleisiwyd bod cynlluniau yn cael eu blaenoriaethu gan ddefnyddio dull cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys sganio peiriannau, archwiliadau gweledol, cynwion cyhoeddus, ac ystyried cyfeintiau traffig a llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at lobïo parhaus am gyllid ychwanegol, cydnabu'r gefnogaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, a chadarnhaodd fod dulliau a thechnolegau newydd yn parhau i gael eu harchwilio. Adroddwyd ymhellach fod 27,000 o dyllau wedi'u hatgyweirio yn y flwyddyn flaenorol, a diolchwyd i swyddogion a staff y Cyngor am eu gwaith parhaus.

Diolchodd y Cynghorydd Champion i swyddogion Priffyrdd a'u timau am eu gwaith parhaus. Codwyd pryder am gyflwr Heol y Gogledd yn y Bont-faen, sydd, er ei bod yn ffordd fach ac nad oedd wedi'i chynnwys ar y rhestr flaenoriaethol, yn parhau i brofi tyllau dro ar ôl tro yn dilyn gwaith cyfleustodau dro ar ôl tro ac atgyweiriadau clytiau. Cyfeiriwyd hefyd at raglen BBC Panorama ar dyllau, a ddarledwyd tua wyth mis ynghynt, a oedd yn archwilio dulliau amgen o atgyweirio ffyrdd. Dywedodd fod hyn wedi'i godi gyda'r Prif Weithredwr yn flaenorol a gofynnodd i swyddogion ystyried adolygu'r rhaglen os nad oeddent eisoes wedi gwneud hynny.

Diolchodd y Cynghorydd Franks, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, i'r tîm Priffyrdd am eu gwaith wrth fynd i'r afael â materion parhaus ond mynegodd bryder nad oedd gan y tîm ddigon o adnoddau i reoli maint y broblem. Cyfeiriwyd at waith priffyrdd wedi'i raglennu a oedd wedi'i atal yr hydref blaenorol ar ôl i arwyddion rhybuddio gael eu codi a hysbysu trigolion, oherwydd bod cyllid wedi dod i ben yn ôl pob golwg. Cofiodd y Cynghorydd geisio sicrwydd mewn cyfarfod blaenorol y Cyngor na fyddai'r sefyllfa hon yn digwydd a mynegodd rwystredigaeth am yr hyn yr oedd yn teimlo oedd diffyg ymrwymiad. Roedd yn credu bod trigolion yn fwyfwy pryderus am gyflwr gwael ffyrdd ar draws y Sir, gan gynnwys nifer, dyfnder, a pherygl tyllau. Disgrifiodd y Cynghorydd y sefyllfa fel un annerbyniol ac anogodd y Pwyllgor i argymhell i'r Cabinet ddyrannu adnoddau digonol i alluogi'r tîm Priffyrdd i gyflawni eu gwaith i safon uwch fyth. Atebodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu, er y byddai wedi hoffi gweld mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethu priffyrdd, cydnabuwyd bod cyllidebau yn gyfyngedig. Nodwyd bod y Dreth Gyngor wedi cynyddu a bod pwysau ariannu ar draws gwasanaethau fel Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi'u trafod yn y Cyngor Llawn. Ei brif bryder oedd sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod swyddogion yn targedu'r adnoddau sydd ar gael ar rannau blaenoriaeth o ffyrdd yn hytrach nag ailwynebu'n llawn, a ystyriwyd yn ddull synhwyrol ac effeithlon. Nid oedd yn glir a oedd perfformiad cyffredinol yn y maes hwn yn well neu'n waeth nag Awdurdodau Lleol eraill ond cydnabuwyd y gellid adolygu data perthnasol. Daeth i ben trwy bwysleisio'r angen i symud y mater ymlaen.

Cododd y Cynghorydd Perry fater sy'n effeithio ar ei ward a llawer o'r Fro wledig ehangach: lonydd gyda lleoedd pasio a oedd wedi esblygu dros amser ac nad oeddent wedi cael eu hailwynebu ers blyneddau lawer, os o gwbl. Pan fydd gyrwyr yn tynnu i mewn i'r manau pasio hyn - yn enwedig yn y nos neu mewn amodau gwlyb - gallai'r wyneb ildio, gan achosi i gerbydau ddisgyn i dyllau dyfnach na thyllau trefol nodweddiadol, gan arwain at ddifrod i gerbydau. Gofynnodd a ellid ymestyn wyneb y lleoedd pasio hyn. Atebodd y Rheolwr Cymdogaeth – Priffyrdd fod yna lawer o leoedd pasio anffurfiol mewn ardaloedd gwledig a oedd wedi datblygu'n

naturiol dros amser. Ymylon glaswellt oedd y rhain fel arfer yn rhan o'r briffordd fabwysiedig ond nid y gerbyttfordd wyneb. Yn gyffredinol, roedd cynnal a chadw yn cynnwys eu tocio'n ôl, yn aml gan ddefnyddio deunydd heb ei rwympio i fynd i'r afael â rhychau dwfn neu bantiau. Fodd bynnag, gan nad oedd ffurfiant priodol oddi tano, ni ystyriwyd eu bod yn briodol gan na fyddai'n para. Gofynnodd am gael gwybod am leoliadau penodol fel y gellid edrych arnynt, a chytunodd i godi'r mater gydag arolygwyr priffyrdd. O safbwynt diogelwch, byddai'r mannau pasio yn parhau i gael eu cynnal i sicrhau y gallai cerbydau dynnu i ffwrdd yn ddiogel, ond ni fyddent o reidrwydd yn cael eu hailwynebu.

Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Cynllun Tair Blynedd Cynnal a Chadw Priffyrdd: 2026 – 2029. Felly, gan na dderbyniwyd unrhyw argymhellion pellach yn effeithio ar y Cynllun arfaethedig gan y Pwyllgor Craffu, cytunwyd ar Gynllun Tair Blynedd Cynnal a Chadw Priffyrdd: 2026–2029.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys ac argymhellion y cyfeirnod a'r adroddiad, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod. Er mwyn galluogi'r Cynllun terfynol i gael ei gymeradwyo ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Lle.